

Ymateb Archwilydd Cyffredinol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion am Fil ar ddatblygu cynaliadwy

Hyrwyddo datblygu cynaliadwy (adran 3)

C.1 Beth yw'r prif rwystrau sy'n eich wynebu o ran gwneud penderfyniadau mwy cydgysylltiedig, hirdymor?

Yn ein barn ni, y prif rwystrau sy'n ein hwynebu o ran gwneud penderfyniadau mwy cydgysylltiedig, hirdymor yw:

- a) y sail gyfreithiol gymharol anghydlynol i'n gwaith - er enghraifft, mae'r trefniadau ariannu ac adrodd gwahanol sy'n bodoli rhwng gwaith archwilio gwerth am arian llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn arwain at gymhlethdodau a chostau gweinyddol sy'n rhwystrau (er nad ydynt bob amser yn anorchfygol) i archwiliadau traws-sector;
- b) cyd-destun busnes a diwylliannol sydd â ffocws byrdymor ac nad yw'n ddelfrydol o ran ystyried costau a buddiannau hirdymor - er enghraifft, mae ein cyflenwyr llety yn dueddol o ganolbwyntio, a hynny'n ddealladwy, ar lif arian parod ac elw byrdymor sy'n milwrio yn erbyn buddsoddiad mewn mesurau arbed ynni y gwelir eu manteision dros gyfnodau estynedig;
- c) gofynion cyfreithiol (sy'n adlewyrchu disgwyliadau eocnomaid-gymdeithasol sylfaenol) sy'n dueddol o arwain at ffocws blynyddol ar reolaeth ariannol - er enghraifft, mae'n rhaid llunio ein hamcangyfrif o incwm a threuliau ar sail flynyddol, ac nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gynllunio ar gyfer y tymor hwy.

C.2 Pa gamau y mae angen eu cymryd, a chan bwy, i leihau neu ddileu'r rhwystrau hyn?

Yn ein barn ni, mae'r camau y mae angen eu cymryd yn cynnwys:

- a) cyflwyno gofynion cyfreithiol sy'n annog safbwynt tymor hwy mewn prosesau gwneud penderfyniadau - mae hyn yn fater i Lywodraeth Cymru fynd ar ei drywydd drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y gwêl yn dda;
- b) rhesymoli deddfwriaeth a chanllawiau presennol - er enghraifft, symleiddio'r dyletswyddau gwella a nodir yn Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 - mater i Lywodraeth Cymru yw hyn yn bennaf (gweler yr ymateb i gwestiwn 21);
- c) datblygu deddfwriaeth a chanllawiau i wella natur dryloyw ac atebolrwydd prosesau gwneud penderfyniadau drwy gyflwyno adroddiadau - bydd hyn yn cynnwys cymhwyso egwyddorion y Fenter Adrodd Integredig Ryngwladol, Cyfrif am Gynaliadwyedd a Chyflwyno Adroddiadau Cysylltiedig. Mater i Lywodraeth Cymru yw cymhwyso is-ddeddfwriaeth, ond mae cydymffurfiaeth yn fater i bob corff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, a'r Archwilydd Cyffredinol fyddai'n gyfrifol yn briodol am brosesau craffu;
- ch) datblygu trefniadau archwilio cyhoeddus er mwyn craffu'n briodol ar gydymffurfiaeth ag a) ac c) uchod, a helpu i wneud cynnydd mwy cyffredinol. Mae'n amlwg mai mater i'r Cynulliad Cenedlaethol yw deddfwriaeth sylfaenol i ddatblygu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer archwilio cyhoeddus, yr eir ar ei drywydd gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth yr Archwilydd Cyffredinol. Mae datblygu'r arferion archwilio eu hunain yn fater i'r

Archwilydd Cyffredinol yn bennaf, ond bydd angen i archwilywyr eraill sy'n gweithredu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ddilyn datblygiadau o'r fath;

- d) ategu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed, mewn rhai meysydd, tuag at ymgorffori datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i ganolbwyntio ar y dinesydd. Yn achos yr amrywiaeth llawn o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys mynd ar drywydd trefniadau cydweithio a manteisio ar dros ddegawd o ddysgu.

O ran y materion uchod, bydd angen i ni gynnwys ein staff mewn rhaglen sylweddol o waith codi ymwybyddiaeth a datblygu gwybodaeth mewn perthynas â goblygiadau archwilio'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Bydd angen i ni hefyd ystyried ymhellach sut i ddefnyddio arbenigedd allanol perthnasol, i'n helpu i gynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy.

Bydd angen i ni hefyd weithio'n agos gyda'r corff newydd arfaethedig er mwyn cael cyngor a chanllawiau. Ffordd allweddol o reoli effeithiau'r ddyletswydd newydd fydd gweithio gyda rheoleiddwyr a chyrrff archwilio eraill i gytuno ar ddull gweithredu cyffredin. O ran gwaith Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyletswydd i gydgyssylltu rheoleiddwyr perthnasol, a allai fod yn bwysig yn hyn o beth. Byddai'n fuddiol pe bai ddyletswyddau i gydweithredu ar y corff newydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru a rheoleiddwyr perthnasol fel ei gilydd.

Tystiolaeth mewn perthynas â datblygu cynaliadwy (adran 4)

C.3 Pa dystiolaeth arall sydd ar gael o gynnydd yr agenda Datblygu Cynaliadwy a'r gwaith i sicrhau mai Datblygu Cynaliadwy yw prif egwyddor drefnu cyrrff cyhoeddus?

Erys llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ein hadroddiad cryno yn 2006 ar ddatblygu cynaliadwy a llywodraeth leol yng Nghymru ac yn ein hadroddiad yn 2010, *Datblygu cynaliadwy a gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru*, yn berthnasol, felly hefyd rai o'r casgliadau a'r argymhellion. Nododd adolygiad diweddar gan PwC o gynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, gynnydd mewn sawl maes ond cadarnhaodd fod angen mynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd yn adroddiad SAC yn 2010 o hyd

Mae corff sylweddol o ymchwil sy'n cefnogi'r gwaith o ymgorffori datblygu cynaliadwy mewn prosesau gwneud penderfyniadau allweddol i wella ansawdd trefn llywodraethu'r sector cyhoeddus, ar bob lefel. Er enghraifft, mae *Governance for sustainable development: the challenge of adapting form to function*¹ yn defnyddio ystod eang o ymchwil ryngwladol i nodi'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, yn ogystal â'r ffordd y gall helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sylfaenol sy'n wynebu llywodraethau. Mae'n nodi mai'r man cychwyn yw cydnabod bod y dasg o sicrhau datblygu cynaliadwy yn un resymol: proses a all gael ei 'llywio', i ryw raddau, gan weithdrefnau a sefydliadau rheoli; a bod llywodraethau sy'n ymrwymedig i ddatblygu cynaliadwy yn barod i newid systemau llywodraethu presennol er mwyn cyflawni nodau datblygu cynaliadwy yn well. Yn hyn o beth,

¹ Governance for sustainable development: the challenge of adapting form to function, golygwyd gan William M. Laffery, Edward Elgar, Cheltenham, 2004

mae llywodraethu yn golygu'r holl 'ddulliau' ac 'offerynnau' sydd ar gael i ddylanwadu ar newid cymdeithasol mewn cyfeiriadau rhagarfaethedig.

Dyletswydd datblygu cynaliadwy newydd (adran 6)

C.4 A ydym wedi nodi'r lefel fwyaf priodol o brosesau gwneud penderfyniau sefydliadol y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt? Rhowch esboniad.

Mae'n anodd pennu'r lefel fwyaf priodol, ond ymddengys fod y lefel a nodwyd yn gyson â bwriad y Llywodraeth i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefnu er mwyn targedu'r penderfyniadau hynny sy'n cael y dylanwad mwyaf ar ymddygiad wrth osgoi peri goblygiadau sylweddol o ran adnoddau sy'n anodd eu cyfiawnhau. Ymddengys fod mynd i'r afael â phrosesau gwneud penderfyniadau lefel uchel yn y lle cyntaf yn ddarbodus.

C.5 A fyddai'r dull gweithredu hwn yn peri'r risg o gynnwys rhai penderfyniadau na ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt? Pa benderfyniadau fyddai'r rhain?

Er ei bod yn briodol bod Llywodraeth Cymru yn gywir i ystyried a oes angen gwneud rhai penderfyniadau'n annibynnol a ph'un a ddylid diogelu annibyniaeth o'r fath rhag gofyniad i gydymffurfio â dyletswydd datblygu cynaliadwy, o ystyried y cynnig i gymhwyso'r ddyletswydd at benderfyniadau lefel uchel yn unig, credwn na ddylid gorbwysleisio'r risg hon. Er enghraifft, cyfeirir at benderfyniadau clinigol ym mharagraff 87 o'r ddogfen ymgynghori, ond ni chaiff penderfyniadau clinigol ar lefel y boblogaeth, megis mewn perthynas â gweithredu mesurau gwella iechyd penodol (e.e. canllawiau ar ddefnyddio cyffuriau), eu gwneud ar wahân - ystyrir ffactorau economaidd ac amgylcheddol, ymhlith rhai eraill, hefyd. Yn ein barn ni, ni ddylai penderfyniadau o'r fath o reidrwydd fod y tu hwnt i ddyletswydd datblygu cynaliadwy a luniwyd yn addas.

C.6 A oes unrhyw benderfyniadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dull gweithredu hwn y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt? Unwaith eto, beth fyddai'r rhain?

Fel y soniwyd isod, mewn ymateb i C7 a C8, mae penderfyniadau o ran cyllidebau a chaffael yn feysydd allweddol y mae angen eu cynnwys. Mae ein hymateb i C24 hefyd yn berthnasol, gan y bydd penderfyniadau a wneir gan gyrff nad ydynt yn dod o dan y ddyletswydd yn benderfyniadau nad ydynt wedi'u cynnwys.

C.7 A ddylem gynnwys penderfyniadau sy'n llywodraethu gweithrediadau mewnol sefydliad? Os felly, pa weithrediadau mewnol y dylem eu cynnwys?

Os bwriedir i'r ddyletswydd gwmpasu strategaethau tymor hwy, cynlluniau blynyddol a pholisïau sy'n llywodraethu sut y bydd sefydliad yn darparu ei wasanaethau neu'n defnyddio arian cyhoeddus i lywodraethu sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ar ei ran (paragraff 81 o'r ddogfen ymgynghori - sy'n briodol yn ein barn ni), yna, yn amlwg, bydd yn

cwmpasu penderfyniadau sy'n llywodraethu gweithrediadau mewnol sefydliad, gan na ellir darparu gwasanaethau heb weithrediadau mewnol. Fodd bynnag, gall fod yn ddefnyddiol rhoi enghreifftiau nad ydynt yn gynhwysol mewn deddfwriaeth o benderfyniadau ar weithrediadau mewnol a gwmpesir gan y ddyletswydd. Credwn y dylai penderfyniadau o'r fath gynnwys pennu polisïau caffael, strategaethau ystadau a strategaethau a pholisïau trafnidiaeth gweithredol.

C.8 A ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol i gynigion cyllidebol? Rhowch esboniad.

Dylai. Mae ymgorffori datblygu cynaliadwy mewn cynigion a phenderfyniadau cyllidebol yn faes lefel uchel allweddol y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddo. Caiff llawer o benderfyniadau busnes pwysig eu gwneud wrth ddyrannu cyllideb, ochr yn ochr â phenderfyniadau cynllun blynyddol, neu mewn rhai achosion yn eu lle.

Ystyrir yn gynyddol fod gan weithwyr proffesiynol ariannol rôl hanfodol i'w chwarae o ran ymgorffori datblygu cynaliadwy mewn prosesau gwneud penderfyniadau allweddol. Ceir enghreifftiau rhyngwladol lle mae'r gweinidogion cyllid wedi chwarae rôl arweiniol. Yn y sector preifat, ceir enghreifftiau cynyddol o gyfarwyddwyr ariannol yn arwain y blaen o ran datblygu cynaliadwy. Mae nifer o gyrff proffesiynol ym maes cyfrifyddu, megis CIPFA, wedi llunio amrywiaeth o ddeunydd gyda'r nod o gynorthwyo'r proffesiwn cyfrifyddu i ymateb i'r her sy'n gysylltiedig ag ymgorffori datblygu cynaliadwy. Mae rhai o'r cyfraniadau hyn yn nodi rôl drawsnewidiol i'r proffesiwn cyfrifyddu, mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys CIMA, ACCA ac IFAC yn ogystal â Chyfrif am Gynaliadwyedd.

Y dull sy'n canolbwyntio ar ymddygiad

C.9 A yw'r holl ymddygiadau a nodwyd gennym yn hanfodol i weithredu mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu meddylfryd datblygu cynaliadwy? Rhowch esboniad.

Mae'n anodd pennu pa ymddygiadau sy'n hanfodol i weithredu mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu meddylfryd datblygu cynaliadwy, ond ymddengys fod yr holl ymddygiadau hynny a nodwyd yn arwain at ddatblygu cynaliadwy. Gall meddwl ar draws y system gyfan fod yn ddisgrifiad gwell o'r hyn sydd dan sylw yn hytrach na "gweithio ar draws ffiniau sefydliadol".

C.10 A oes unrhyw ymddygiadau hanfodol nad ydym wedi eu nodi? Rhowch esboniad.

Ymddengys fod angen ffocws ar ddatblygu cynaliadwy ei hun ynghyd ag ymrwymiad iddo.

C.11 Beth yw manteision ac anfanteision pennu ymddygiadau fel y ffactorau datblygu cynaliadwy y mae'n rhaid iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uchel?

Fel y noda cynllun datblygu cynaliadwy cyfredol Llywodraeth Cymru, *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*, "mae datblygu cynaliadwy yn broses". Mae'r dull sy'n canolbwyntio ar ymddygiad yn

bwysig oherwydd mae'n pennu disgwyliadau o ran y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud. Mae'n dechrau'r broses o sefydlu trefn lywodraethu ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Fodd bynnag, mae ymchwil, megis yr hyn a nodwyd yn adroddiad Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig, *Decoupling natural resource use and environmental impact from economic growth* (2011) wedi nodi y dylid pwysleisio'r angen i ddatgysylltu lles economaidd-gymdeithasol oddi wrth effeithiau amgylcheddol fel nod, er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy effeithiol. (Ystyriwn fod datgysylltu o'r fath yn gyfystyr â gwella lles pobl, er enghraifft o ran diogelwch economaidd, heb gael effaith andwyol bellach ar yr amgylchedd, neu yn well byth, tra'n lleihau'r effaith andwyol ar yr amgylchedd) Gan y bydd angen ystyried y nod hwnnw wrth wneud penderfyniadau, mae dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar amcanion neu ddull gweithredu cyfunol yn addas ar gyfer yr agwedd hon ar gyflawni datblygu cynaliadwy. (Gweler ein hymateb i C13.)

C.12 Faint o ddylanwad ddylai fod gan ymddygiadau datblygu cynaliadwy dros benderfyniadau lefel uchel - er enghraifft, a ddylai'r penderfyniadau hynny fod yn gyfreithlon os cawsant eu gwneud mewn modd:

- sy'n gyson ag un o'r ymddygiadau, rhai neu bob un ohonynt;
- sy'n adlewyrchu'r ymddygiadau'n gyffredinol;
- nad yw'n gyson â'r ymddygiadau?
- a oes unrhyw opsiwn arall?

Dylai pob penderfyniad lefel uchel fod yn gyson â'r holl ymddygiadau. Fodd bynnag, dylai'r ddeddfwriaeth ddarparu ar gyfer sefyllfaoedd lle na ellir cyflawni'r ymddygiad yn rhesymol, megis lle nad yw'n ymarferol ymgysylltu â phob rhanddeiliad (e.e. penderfyniadau sy'n ymwneud ag allyriadau nwy tŷ gwydr sylweddol), fel y gall tystiolaeth o ddull gweithredu rhesymol ac ystyriol ei gwneud yn bosibl i benderfyniad gael ei ystyried yn gyfreithlon. (Efallai y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau gweithredol byrdymor, neu nad ydynt yn canolbwyntio ar atal ac ati, ond bydd angen i'r rhain gael eu cyfiawnhau a'u gwneud am gyfnod cyfyngedig o amser ac o fewn cyd-destun cynllun i gydymffurfio â'r ddyletswydd.)

Y dull sy'n canolbwyntio ar amcanion

C.13 A oes unrhyw amcanion datblygu cynaliadwy craidd nad ydym wedi eu nodi uchod?

Yn dilyn ein rhesymau yn ein hymateb i C11, awgrymwn y dylai'r angen i ddatgysylltu lles economaidd-gymdeithasol oddi wrth effeithiau amgylcheddol, fod yn amcan datblygu cynaliadwy craidd.

C.14 Beth yw manteision ac anfanteision pennu amcanion cynaliadwy fel y ffactorau y mae'n rhaid iddynt ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau lefel uwch?

Credwn na fyddai'r amcanion hyn yn effeithiol o ran sicrhau datblygu cynaliadwy. Maent yn debygol o barhau â'r patrwm dewis a dethol o ran sicrhau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a welir mewn rhannau o'r sector cyhoeddus. Mae'n annhebygol y byddent yn arwain at gynnydd integredig a chytbwys. Ceir hefyd achosion o ddyblygu a gorgyffwrdd ymysg yr amcanion. Gyda'r fath hyblygrwydd a diffyg eglurder, byddai'n anodd cadarnhau cydymffurfiaeth, felly rydym yn amau na ellid monitro'r amcanion yn effeithiol ac felly na fyddent yn cefnogi dulliau effeithiol o gael adborth a gwerthuso.

Gallai nodi nifer fach o amcanion penodol a'u cyfuno â'r dull sy'n canolbwyntio ar ymddygiad fod yn effeithiol, ond byddai'n rhaid cyfaddawdu'n sylweddol o ran cymhlethdod a chwmpas.

C.15 Faint o ddylanwad ddylai'r amcanion ei gael dros benderfyniadau lefel uchel - er enghraifft, a ddylai'r penderfyniadau hyn fod yn gyfreithlon:

- dim ond os ydynt yn cyfrannu'n weithredol at un o'r amcanion neu fwy;
- os nad ydynt yn tynnu oddi ar yr amcanion;
- hyd yn oed os ydynt yn tynnu oddi ar rai o'r amcanion hynny, ar yr amod eu bod yn hyrwyddo eraill yn weithredol?
- a oes unrhyw opsiwn arall?

Mae'r cwestiwn hwn yn amlygu'r problemau allweddol sy'n gysylltiedig â'r dull gweithredu hwn. Yn amlwg, prin iawn yw'r penderfyniadau a all gyfrannu at yr holl amcanion, a bydd llawer yn tynnu oddi ar rai tra'n bodloni rhai eraill. Mae'n anochel y bydd angen eu dethol felly, ac mae hyn yn debygol o arwain at y patrwm dewis a dethol y soniwyd amdano yn ein hymateb i C14.

Y dull cyfunol

C.16 Beth yw manteision ac anfanteision seilio dyletswydd ar ymddygiadau datblygu cynaliadwy ac amcanion datblygu cynaliadwy?

Byddai unrhyw ymgais i gyfuno'r ymddygiadau presennol â'r amcanion presennol yn esgor ar anfanteision sylweddol. Mae'r ffaith bod yr amcanion yn gorgyffwrdd yn golygu y byddai cyflwyno adroddiadau yn broses gymhleth ac annelwig. Mae annhebygol hefyd y byddai'n rhoi unrhyw wybodaeth am gynnydd o ran datgysylltu lles economaidd a chymdeithasol oddi wrth effeithiau amgylcheddol andwyol.

Fodd bynnag, ystyriwn mai dull cyfunol sy'n canolbwyntio ar ymddygiad ac amcanion fyddai'r dewis mwyaf effeithiol pe bai amcanion yn cael eu pennu mewn ffordd wahanol. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i amcanion fod yn benodol a dylai fod modd eu haddasu yng ngoleuni dysgu a pherfformiad. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn addas i'w cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Rydym felly'n ffafrio dull cyfunol lle mae sefydliad yn cydymffurfio â'r ddyletswydd drwy ei ymddygiad wrth wneud penderfyniadau, a lle mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu

amcanion penodol bob pum mlynedd o leiaf. Dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r corff newydd ar y broses o bennu'r amcanion.

Un cynnig datblygu cynaliadwy

C.17 Beth yw eich barn ar seilio dyletswydd ar un cynnig datblygu cynaliadwy?

Rydym yn amau y byddai'r dull hwn sy'n seiliedig ar un cynnig datblygu cynaliadwy yn arwain at ddiffyg ymdrech a chynnydd - hyd yn oed yn fwy byth na'r dull sy'n canolbwyntio ar amcanion. Mae'n debygol y byddai agweddau penodol ar les yn cael eu ffafrio dros rhai eraill heb i hyn hyd yn oed fod yn amlwg mewn unrhyw gofnod o'r broses gwneud penderfyniadau. Byddai'n anodd iawn felly gynnal archwiliad ystyrion o gydymffurfiaeth yn erbyn yr un cynnig fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Yr amser y gall fod ei angen ar sefydliadau i gydymffurfio

C.18 Faint o amser y dylid ei roi i sefydliadau i wneud y newidiadau hyn?

Bydd yn rhaid i gyrff yn y sector cyhoeddus drawsnewid eu prosesau cynllunio busnes allweddol a'u prosesau gwneud penderfyniadau eraill er mwyn cyflawni'r ddyletswydd. Bydd angen hyfforddi staff gwneud penderfyniadau allweddol ar sut i gyflawni'r ddyletswydd. Hefyd, bydd angen i'r corff newydd fod wedi'i ymsefydlu cyn y bydd yn ffynhonnell effeithiol o arbenigedd ac arweiniad. Credwn y bydd angen o leiaf 18 mis i wneud paratodau o'r fath.

Rhoi canllawiau

C. 19 A fyddai'n ddefnyddiol rhoi canllawiau ffurfiol i sefydliadau y mae'r ddyletswydd newydd yn berthnasol iddynt?

Byddai. Byddai canllawiau o'r fath yn ddefnyddiol i hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin a chadarnhaol o'r ddyletswydd. Ymhlith pethau eraill, byddai canllawiau o'r fath yn atal cyrff unigol rhag gwastraffu ymdrech yn datblygu ffyrdd o gydymffurfio ar wahân. Dylai hefyd helpu i leihau faint o ymdrech a wneir i ddatblygu ymatebion sy'n tansilio'r ddyletswydd.

C. 20 A ddylai unrhyw ganllawiau o'r fath gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru neu'r corff datblygu cynaliadwy newydd?

Mae'r cwestiwn yn ymwneud â phwy ddylai gyhoeddi canllawiau yn gysylltiedig â'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer y ddyletswydd newydd (gweler C28). Os bydd y corff newydd yn dilyn y model cyngor a chanllawiau arbenigol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, yna mae'n briodol mai'r corff hwnnw sy'n cyhoeddi canllawiau.

Fodd bynnag, os na fydd y corff newydd wedi'i ymsefydlu cyn i'r ddyletswydd gael ei chyflwyno, byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ffurfiol. Mae'n

bwysig bod swyddogion y llywodraeth yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r canllawiau, tra bod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn mynd rhagddo. Bydd hyn yn sicrhau bod y canllawiau ar gael mewn pryd i wneud paratodau yn hytrach nag ychydig fisoedd ar ôl deddfu, fel sydd wedi digwydd gyda deddfwriaeth arall yn y gorffennol.

Diddymu dyletswyddau

C.21 A oes unrhyw ddyletswyddau statudol penodol y byddai'n briodol eu diddymu, yng ngoleuni'r dull a gynigir gennym o dan y Bil Datblygu Cynaliadwy?

O ystyried cymhlethdod y gwaith o sefydlu datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefnu'r llywodraeth, rhaid wrth eglurder a ffocws. Am y rheswm hwnnw, dylid diddymu'r agweddau ar Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, dim ond os caiff diffiniad cadarn o ddatblygu cynaliadwy ei gynnwys yn y Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig y dylid gwneud hyn.

Gellid symleiddio Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yng ngoleuni'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy arfaethedig. Yn benodol, gellid cyfeirio at ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (y mae datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o ddiffiniad o'r fath) yn lle'r agweddau ar wella a ddarperir yn adrannau 2 i 4.

C.22 A oes unrhyw rwystrau cyffreithiol i gyflawni yn unol â'r ffactorau datblygu cynaliadwy a nodwyd gennym, y gallai'r Bil Datblygu Cynaliadwy eu dileu?

Yn ein hadroddiadau yn 2006 a 2010, nodwyd nad oedd potensial polisi 'Creu'r Cysylltiadau' a deddfwriaeth a chanllawiau Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella wedi'i gyflawni mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn nodi cynaliadwyedd fel un o saith "agwedd ar wella" ac i bob pwrpas, yn sefydlu datblygu cynaliadwy fel un o saith blaenoriaeth a allai wrthdaro â'i gilydd. Mae'n amlwg nad yw hyn yn cyd-fynd â bwriad Llywodraeth Cymru i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefnu.

Mae canllawiau Trysorlys EM ar gyflwyno adroddiadau blynyddol ar gynaliadwyedd yn y sector cyhoeddus yn ddefnyddiol o ran hyrwyddo dull mwy trylwyr o adrodd ar stiwardiaeth amgylcheddol. Fodd bynnag, mae labelu'r broses o adrodd ar stiwardiaeth amgylcheddol, "adrodd ar gynaliadwyedd", yn rhwystro'r dull integredig a chytbwys o sicrhau cynaliadwyedd a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Cydnabyddwn na all y Bil Datblygu Cynaliadwy ddiwygio canllawiau Trysorlys EM. Fodd bynnag, awgrymwn y bydd angen i Lywodraeth Cymru, wrth lunio'r Bil, geisio integreiddio gofynion yr agwedd hon ar ganllawiau Trysorlys EM â dull mwy cysylltiedig ac integredig o adrodd ar gynaliadwyedd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cyflwyno adroddiadau

C.23 A ddylid ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau roi adborth ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd drwy eu trefniadau adrodd blynyddol presennol?

Mae gennym amheumon am werth sefydliadau yn cyflwyno eu hadroddiadau eu hunain ar y modd y mae eu penderfyniadau lefel uchel yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Rydym yn amau y gallai gofyniad o'r fath arwain at gryn dipyn o naratif sy'n llawn hunangyfiawnhad. Fel arall (neu yn y ogystal), gall arwain at fiwrocratiaeth ticio blychau mewn perthynas â chydymffurfiaeth.

Fodd bynnag, gwelwn werth mewn sefydliadau yn cofnodi eu prosesau gwneud penderfyniadau yn briodol er mwyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru (neu archwilydd arall) eu hadolygu'n allanol a chyflwyno adroddiad ar unrhyw fethiant i gydymffurfio.

Mae osgoi adroddiadau ar wahân ar 'gynaliadwyedd' yn gyson â'r ymrwymiad i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefnu'r sector cyhoeddus. Mae hefyd yn gyson â'r awydd i symleiddio'r rhwymedigaethau a osodir ar y sector cyhoeddus. Mae'n gwneud synnwyr felly, os bydd adolygydd allanol, megis Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn adrodd ar gydymffurfiaeth, i'r adroddiad ar yr adolygiad allanol gael ei gynnwys gyda'r adroddiad blynyddol.

Os yw Llywodraeth Cymru yn ystyried proses ehangach o adrodd ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy, megis proses a allai alw am adroddiadau rheolaidd ar fesurau penodol (ac nid ydym yn credu mai dyma'r bwriad o'r ddogfen ymgynghori), yna awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r broses gyfatebol o gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r rheoliadau a wnaed yng Nghymru o dan y Ddeddf honno². Mae OS 2011/1064 yn ei gwneud yn ofynnol i roi adroddiad, er enghraifft, ar ystadegau'r gweithlu mewn perthynas â nodweddion a ddiogelir (megis rhyw ac anabledd) ond nid oes gofyniad o ran y dull a ddefnyddir, er bod y nodiadau esboniadol yn awgrymu bod disgwyl i adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno. Os ystyrir y fath broses ehangach o adrodd, dylem nodi nad yw'r trefniadau presennol i gyflwyno adroddiadau blynyddol yn ddelfrydol, a hynny am fod adroddiadau blynyddol yn destun rheoliadau mor amrywiol a chymhleth fel ei bod yn aml yn anodd i unrhyw un gael darlun clir o berfformiad.

Gall annog cyrff cyhoeddus i ddilyn y Fenter Adrodd Fyd-eang, Cyfrif am Gynaliadwyedd a dull Adrodd Integredig (y Pwyllgor Adrodd Integredig Rhyngwladol) helpu. Yn wir, gall y rhain helpu i wella prosesau adrodd yn y cyd-destun mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefnu sut bynnag, gan y dylai atal prosesau adrodd anghytwys ac anghydlynol a all godi os, er enghraifft, y rhoddir gormod o sylw i ofynion OS 2011/1064. Cydnabyddwn, fodd bynnag, na fydd Bil Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gallu diwygio gofynion adrodd Trysorlys EM.

Y sefydliadau y gallai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt

C.24 A oes sefydliadau ar y rhestr na ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt? Rhowch esboniad.

Yn ein barn ni, ni ddylid hepgor unrhyw un o'r sefydliadau ar y rhestr. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus wedi bod yn ffordd o geisio gwella canlyniadau polisi mewn meysydd eraill. Mae iddo nifer o fanteision ymarferol. Fodd bynnag, o safbwynt effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, dylid hefyd roi ystyriaeth i sicrhau bod

²Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (OS 2011/1064)

y ddeddfwriaeth mor addas ar gyfer gofynion y dyfodol â phosibl. Efallai na fydd canolbwyntio'r ddyletswydd yn gyfan gwbl ar gyrrff cyhoeddus yn fodd i sicrhau ymateb ystwyth a hyblyg i'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a allai newid yn sylweddol, yn arbennig wrth i'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus barhau. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru felly yn dymuno ystyried gwneud y ddyletswydd yn gymwys i unrhyw berson sy'n ymwneud â'r broses o ddarparu swyddogaethau a gwasanaethau a ddarperir yn gyhoeddus. Efallai y bydd hefyd yn dymuno ystyried sut y gallai'r ddeddfwriaeth adlewyrchu'r ffaith bod caffael cynaliadwy yn ffordd allweddol o sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefnu'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'n amlwg bod ystyriaethau o ran effaith ac adnoddau yn llywio penderfyniad y Llywodraeth o ran pa gyrrff y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt. Mae'n bosibl felly y byddai proses gyflwyno raddol yn briodol, gyda'r ddyletswydd yn cael ei chymhwyso yn gyntaf at sefydliadau sydd â'r effaith fwyaf dylanwadol o ran polisi, cyflawni, ariannu a rheoleiddio. Fodd bynnag, gan mai bwriad y Llywodraeth yw "deddfu i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru", dylid ei gwneud yn glir y bydd y ddyletswydd yn y pen draw yn gymwys i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Dylid ei gwneud yn glir y bydd disgwyl i gyrrff y caiff y ddyletswydd ei chymhwyso atynt yn ddiweddarach ddefnyddio'r amser hwnnw i baratoi eu hunain. Bydd angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru gydgyssylltu â chyrrff a archwilir i egluro'r effaith bosibl ar weithdrefnau archwilio presennol. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru eisoes wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried goblygiadau posibl cynigion Llywodraeth Cymru.

C25. A oes unrhyw sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr ond y dylid cymhwyso'r ddyletswydd atynt? Rhowch esboniad.

Nodwn fod paragraff 118 o'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod gan rai sefydliadau rolau penodol fel na all fod yn briodol cymhwyso'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy at eu penderfyniadau lefel uchel. Rydym o'r farn y byddai peidio â chymhwyso'r ddyletswydd at sefydliadau â swyddogaethau rheoleiddio a chynghori sylweddol yn peri risg o flaenoriaethau croes. Awgrymwn felly y dylai'r ddyletswydd gwmpasu Estyn, y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

Diffinio datblygu cynaliadwy

C.26 A oes unrhyw fanteision neu anfanteision i ddiffinio "datblygu cynaliadwy" ac os fellt, beth ydynt?

Mae adroddiadau SAC yn 2006 a 2010, yn ogystal ag amryw adolygiadau eraill ac ymchwil academiaidd yn nodi bod dealltwriaeth yn allweddol i sefydlu datblygu cynaliadwy. Mae diffiniad clir yn rhoi sail gadarn i ddeall beth mae sefydlu datblygu cynaliadwy mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn ei olygu yn ymarferol. Dengys ein hadroddiadau fod dyheadau Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy wedi'u llesteirio, am ran helaeth o'r ddegawd ddiwethaf, gan ddiffiniad amhenodol o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r cynllun datblygu cynaliadwy diweddaraf, *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* yn rhoi diffiniad clir ac yn ceisio egluro beth mae'n ei olygu yn ymarferol. Yn seiliedig ar y dystiolaeth, byddai diffinio

datblygu cynaliadwy mewn perthynas â'r ddyletswydd, yn gyson â thanategu bwriad y llywodraeth.

C.27 Pe baem yn diffinio "datblygu cynaliadwy", a ydych o'r farn y byddai'r diffiniad ymarferol uchod yn addas a pham?

Mae'r diffiniad yn *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* wedi bod yn ddefnyddiol i egluro'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy mewn perthynas â Chymru. Fodd bynnag, o ystyried y cyd-destun y mae'n debygol y bydd y sector cyhoeddus yn gweithredu oddi mewn iddo dros y ddegawd nesaf, gall fod yn ddoeth ystyried diwygio'r diffiniad. Ymddengys fod termau megis 'gwella' ac 'ansawdd bywyd gwell' yn anaddas o ystyried y cyd-destun presennol. Awgrymir y dylid defnyddio'r diffiniad canlynol fel modd i ddiffinio datblygu cynaliadwy yn nhermau bwriadau Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn yr ymgynghoriad hwn:

Mae datblygu cynaliadwy yn golygu integreiddio lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan gydbwyso ansawdd bywyd ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n:

- *hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;*
- *diogelu ein hetifeddiaeth ddiwylliannol a naturiol;*
- *gwella effeithlonrwydd o ran ein defnydd o adnoddau naturiol a lleihau effaith andwyol ein gweithgareddau.*

Corff datblygu cynaliadwy annibynnol (adran 7) Diben y corff newydd

C.28 Beth ddylai diben cyffredinol y corff newydd fod?

Cytunwn ar y cyfan â chynigion Llywodraeth Cymru y dylai corff datblygu cynaliadwy newydd ganolbwyntio ar ddarparu cyngor arbenigol, canllawiau a her (ar ffurf rôl 'cyfaill beirniadol'), tra bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy. Yn ein barn ni, mae hyn yn gweddu'n dda â chynigion Llywodraeth Cymru i brif-ffrydio'r gwaith o graffu ar y broses o weithredu'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy ym mhrif swyddogaethau archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dylai hefyd fod yn ddefnyddiol o ran darbodusrwydd ac effeithlonrwydd, gan fod y gwaith sydd ei angen i graffu ar ddyletswydd datblygu cynaliadwy, megis archwilio cynlluniau blynyddol, yn gorgyffwrdd cryn dipyn â phrosesau craffu ariannol, gwerth am arian a gwelliant. Bydd gofyn i'r un sefydliad ymgymryd â'r tasgau hyn gyda'i gilydd yn fwy darbodus ac effeithlon na gofyn i sefydliadau ar wahân eu cynnal. (Ceir rhagor o fanylion am y ffordd y gall gwaith craffu ar y ddyletswydd datblygu cynaliadwy fod yn ddefnyddiol yn ein barn ni yn yr atodiad.)

Mae'r rôl o herio (neu'r model eirioli/ombwdsmon/gwaith achos) a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori yn amlwg wedi'i chynllunio i osgoi dyblygu diangen a chostau na ellir eu cyfiawnhau. Credwn fod hyn yn ddoeth. Credwn y byddai'n briodol i'r corff newydd gydweithio â sefydliadau lle mae cydweithredu rhwng y naill a'r llall, ond y dylai feddu ar y gallu i fynd ar drywydd sefydliadau rhwystrol drwy'r llysoedd mewn achosion difrifol. Credwn hefyd y byddai'n briodol i'r corff newydd gyflawni'r rôl hon yn benodol yn hytrach na

Llywodraeth Cymru, gan na fyddai fawr o hygrededd yn perthyn i hyn pe bai gan Lywodraeth Cymru rôl eirioli lle y dylai eirioli yn ei herbyn ei hun o bosibl.

C.29 A oes gennych unrhyw farn ar y dull dewisol o gyflawni prif swyddigaethau'r corff newydd?

Ymddengys fod y dull dewisol o ganolbwyntio'n bennaf ar eiriolaeth a darparu cyngor a chanllawiau arbenigol, tra'n defnyddio gwaith craffu Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn briodol, yn arbennig am y rhesymau a nodir o dan C28.

C.30 A oes unrhyw anfanteision sylweddol i sefydlu corff newydd ar sail statudol?

Ni welwn unrhyw anfanteision sy'n sylweddol yng nghyd-destun y manteision a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori.

C.31 A ydych yn cytuno â'r swyddogaethau arfaethedig ar gyfer corff newydd a sefydlir ar sail statudol?

Ydyn. Dylai'r swyddogaethau arfaethedig gael eu cyflawni gan gorff newydd a sefydlir ar sail statudol er mwyn helpu i sicrhau y cânt eu cyflawni'n barhaus. Bydd sail statudol yn helpu i ddiogelu annibyniaeth y corff newydd a gall hefyd helpu i roi mwy o hygrededd iddo.

Annibyniaeth ac atebolrwydd

C.33 A oes gennych farn benodol ar annibyniaeth corff newydd?

Cytunwn â'r farn a nodir yn y ddogfen ymgynghori y dylai'r corff fod yn annibynnol ar y Llywodraeth. Dylai annibyniaeth o'r fath roi mwy o hygrededd i gyngor a chanllawiau'r corff.

Er mwyn sicrhau ei fod yn annibynnol ar y Llywodraeth, dylai'r corff newydd gael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na chan Weinidogion Cymru.

C.34. A oes gennych farn benodol ar y trefniadau atebolrwydd ar gyfer y corff newydd?

Cytunwn â'r farn a nodir yn y ddogfen ymgynghori y dylai'r corff weithredu'n dryloyw a bod yn gwbl atebol am ei weithrediadau. Er mwyn helpu yn hyn o beth, a diogelu ei annibyniaeth oddi ar y Llywodraeth ymhellach, awgrymwn y dylai'r corff gael ei ddwyn i gyfrif gan un o bwyllgorau priodol y Cynulliad (i'w benderfynu gan y Cynulliad), yn hytrach na'i ddwyn i gyfrif gan Weinidogion Cymru).

Gan y bydd y corff newydd yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus ac yn cael ei ariannu'n gyhoeddus fwy na thebyg, awgrymwn y dylai gael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Arall

Mae cyfathrebu, ymgysylltu a sicrhau perchenogaeth yn allweddol i weithredu datblygu cynaliadwy yn llwyddiannus. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut mae'n bwriadu cyflwyno ei Aseiad Effaith Rheoleiddio i gael ei herio'n allanol gan randdeiliaid allanol allweddol.

Atodiad

Amlinelliad o'r ffordd y gall Archwilydd Cyffredinol Cymru (ac archwilywyr eraill yn y sector cyhoeddus) graffu ar ddyletswydd datblygu cynaliadwy.

Os dilynir y dull dewisol (h.y. canolbwyntio ar benderfyniadau lefel uchel ac ati, fel y nodir ym mharagraff 78 o'r ddogfen ymgynghori) a gynigir gan Lywodraeth Cymru, yna awgrymwn y dylid cynnal y broses archwilio yn y modd canlynol. Mewn manau penodol, cyfeiriwn at yr "archwilydd". Yn achos y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, bydd hyn yn golygu Archwilydd Cyffredinol Cymru, ond lle y caniateir i gyrff benodi eu harchwilywyr eu hunain o hyd, er mwyn sicrhau craffu cyson, awgrymwn y dylai'r ddyletswyddau y cyfeirir atynt fod yn gymwys i archwilywyr o'r fath.

1. Bydd gan archwilydd corff y mae'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn gymwys iddo ddyletswydd i gynnal adolygiad lefel uchel ynghylch a yw'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wedi'i chymhwyso yn ei brosesau gwneud penderfyniadau lefel uchel, yn benodol wrth bennu strategaeth hirdymor, cynllun blynyddol, cyllideb gorfforaethol flynyddol a pholisïau allweddol sy'n llywodraethu'r modd y bydd yn darparu gwasanaethau neu fel arall yn defnyddio adnoddau cyhoeddus. Byddai adolygiad o'r fath yn cynnwys archwilio'r dogfennau eu hunain, a lle y bo angen archwilio cofnodion ategol, fel cofnodion o waith ymgysylltu â'r cyhoedd, a chyfweliad (neu arolwg) â staff, defnyddwyr a rhanddeiliaid perthnasol.
2. Ar ôl cynnal adolygiad lefel uchel, bydd gan yr archwilydd ddyletswydd i ddarparu adroddiad ar yr adolygiad (adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy) ochr yn ochr â'i dystysgrif/adroddiad ar y cyfrifon neu fel rhan o'r gwaith hwnnw. Mewn unrhyw achos, dylai'r adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy fodloni'r un gofynion o ran cyhoeddi ac ystyried â'r dystysgrif/adroddiad ar y cyfrifon. Er enghraifft, yn achos Llywodraeth Cymru, bydd hyn yn golygu y byddai'r adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai hyn yn sicrhau bod adroddiadau ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy ar gael i'w hystyried gan bwyllgorau perthnasol y Cynulliad, gan gynnwys y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, cynghorau a'u pwyllgorau craffu a'r cyhoedd.
3. Yn dilyn yr adolygiad lefel uchel, bydd gan yr archwilydd hefyd ddyletswydd i ystyried a yw'r adolygiad yn codi pryderon am gydymffurfiaeth y corff â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy y mae angen eu harchwilio ymhellach. Gellid cynnal archwiliad o'r fath fel rhan o swyddogaethau archwilio ac astudio gwerth am arian presennol Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu gallai'r ddeddfwriaeth newydd ddarparu ddyletswyddau penodol o ran archwilio cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy. (Yn anffodus, nid yw swyddogaethau archwilio ac astudio gwerth am arian presennol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymestyn i gorfforaethau addysg unigol, ac eithrio drwy gytundeb). Felly, gallai Bil datblygu cynaliadwy fod yn ddefnyddiol i gau'r bwlch hwnnw. Os eir ar drywydd ddyletswyddau newydd penodol o ran archwilio cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn y Bil, gall fod yn ddefnyddiol pe na bai angen ymgynghori ar y rhain â chymdeithasau cyrff llywodraeth leol, er enghraifft, sy'n bresennol mewn swyddogaethau archwilio ac astudio ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau y caiff materion pwysig eu hystyried yn gyflym.

4. Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru o bryd i'w gilydd gynnal astudiaethau trawsbynciol o faterion datblygu cynaliadwy wedi'u llywio gan waith o dan 1 i 3 uchod, gan ddefnyddio pwerau archwilio ac astudio presennol. Rhagwelwn y gallai astudiaethau o'r fath gynnwys astudiaethau cyfnodol i grynhoi canlyniadau'r holl waith adolygu ac archwilio ym maes datblygu cynaliadwy ar draws pob sector.
5. Byddai dyletswydd ar archwilwyr i ddarparu pob adroddiad ar ddatblygu cynaliadwy i'r corff datblygu cynaliadwy newydd er gwybodaeth. Yn nhermau absoliwt, ni ddylai fod angen iddynt wneud hyn gan ei bod eisoes yn ofynnol i gyfrifon a ardystiwyd gael eu cyhoeddi drwy ddarpariaethau cyhoeddusrwydd awdurdodau lleol. Fodd bynnag, byddai dyletswydd o'r fath yn gwneud tasg y corff newydd o olrhain adroddiadau yn llawer haws ac felly'n arbed amser a chost.
6. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys yn ei god ymarfer archwilio ddisgrifiad o'r ffordd y dylai archwilwyr (gan ei gynnwys ef ei hun) gyflawni swyddogaethau craffu ar ddyletswydd datblygu cynaliadwy.